

ENW'R PWYLLGOR	Pwyllgor Craffu Gofal
DYDDIAD Y CYFARFOD	26 Tachwedd 2020
TEITL YR EITEM	Plant a phobl ifanc mewn gofal
PWRPAS	Trosolwg ar faterion yn ymwneud â gwasanaethau gofal i blant a phobl ifanc
AWDUR	Marian Parry Hughes, Pennaeth Gwasanaeth
AELOD CABINET	Cynghorydd Dilwyn Morgan

1. Cyflwyniad

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yw i roi trosolwg i'r Pwyllgor Craffu o'r sefyllfa ym maes plant mewn gofal yn y Cyngor, i osod y cyd destun polisi cyfredol ac i dynnu sylw i'r modd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i sicrhau cysondeb dros y cyfnod COVID i gynnal cefnogaeth a gwasanaeth i'r garfan yma o blant a phobl ifanc sydd yng ngofal y Cyngor.
- 1.2 Ar ddiwedd Medi 2020, roedd 294 o blant mewn gofal yng Nghyngor Gwynedd. Bydd yr aelodau yn ymwybodol fod gan y Cyngor gyfrifoldeb statudol fel rhieni corfforaethol ar gyfer pob un o'r plant a'r bobl ifanc yma, a thrwy hynny mae cyfrifoldeb i sicrhau eu bod yn cael y cyfleoedd gorau mewn bywyd i ffynnu ac i ddatblygu fel unrhyw blentyn arall. Mae angen ystyried pob un 'fel pe bai'n blentyn i mi...'
- 1.3 Mae plant yn dod i ofal am nifer o resymau gwahanol, ond yn y mwyafrif llethol o achosion mae'r penderfyniad i ddod â plant i ofal yn seiliedig ar ddigwyddiad/au o niwed arwyddocaol iddynt yng ngofal eu rhieni. Golyga hyn fod plant wedi dioddef camdriniaeth corfforol, rhywiol, emosiynol a/neu esgeulustod. Mae enghreifftiau yn ogystal erbyn hyn o bobl ifanc yn eu harddegau sydd yn dod i'n gofal oherwydd eu hymddygiadau eu hunain sydd yn golygu eu bod yn rhoi eu hunain mewn perygl ac yn hunan anafu, yn dioddef camdriniaeth drwy gael eu hecsploetio yn rhywiol neu eu hecsploetio drwy gael eu tynnu i mewn i droseddau (e.e 'county lines'). Yn y mwyafrif o'r achosion yma mae cadw'r bobl ifanc yma yn ddiogel yn hynod o heriol ac mae gallu rhieni i wneud hyn yn cael ei gyfaddawdu i'r graddau lle nad oes dewis ond eu cymryd i ofal i wneud ein gorau i'w cadw yn saff.

Y sefyllfa gyfredol

2.1 Mae'r Cyngor yn gweithredu ei gyfrifoldeb rhiantu corfforaethol drwy weithwyr cymdeithasol a rheolwyr yn y Gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd, ac mae'r Panel Rhiant Corfforaethol yn gyfrifol am sicrhau fod y gwasanaethau aml asiantaethol a gynigir i blant mewn gofal o ansawdd uchel, yn hygyrch ac yn cyfarfod eu anghenion. Ein huchelgais ar gyfer plant mewn gofal yw:

- Darparu cartrefi diogel, sefydlog er mwyn iddynt ffynnu a datblygu
- Cydweithio gyda'n partneriaid i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bob plentyn sydd yn ein gofal
- Cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd ac i ofalu am eu plant yn ddiogel
- Dychwelyd plant yn ôl i fyw gyda'u rhieni lle bo hynny yn ddiogel
- Darparu ystod eang o leoliadau priodol, addas a lleol

2.2 Fel y nodwyd uchod, roedd 294 o blant (156 teulu) mewn gofal yng Nghyngor Gwynedd ar ddiwedd Medi 2020, sydd yn gynnydd o 11% o fis Medi 2019. Daeth 27 o blant i ofal am y tro cyntaf rhwng Ebrill a Medi 2020. Bu i 24 adael gofal yn ystod yr un cyfnod drwy unai ddychwelyd adref, diddymu eu gorchmynion gofal, symud i fyw yn annibynnol, cael eu mabwysiadu, neu ddod yn

destun Gorchymyn Gwarchodaeth Arbennig i'w gofalwyr. Mae'r mwyafrif llethol o blant sydd yn dod i ofal yn destun Gorchymyn Gofal sydd yn orchymyn drwy'r llys yn rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r Cyngor. Rhennir y cyfrifoldeb yma gyda'r rhiant, ac mae cydweithio gyda'r rhiant yn hollol greiddiol i sicrhau fod anghenion plant yn cael eu cyfarfod. Ar adegau mae rhaid i'r Cyngor wneud penderfyniadau sydd yn groes i ddymuniad rhiant er lles plant, ac mae Gorchymyn Gofal yn rhoi'r awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth fel y person dynodedig ar ran y Cyngor i wneud y penderfyniadau hyn. Rhai enghreifftiau o'r math o benderfyniadau yw rhoi caniatad i blentyn gael triniaeth feddygol os yw rhiant yn gwrthod; mynd ar wyliau dramor gyda'i ofalwyr ac atal cyswllt gyda rhai unigolion. Dim ond drwy fabwysiadu y mae rhieni geni yn colli eu cyfrifoldeb rhiant.

2.3 Fel y gwelir o atodiad 1 sydd yn rhoi manylder gwybodaeth i'r aelodau, mae'r mwyafrif o blant sydd mewn gofal yng Ngwynedd yn parhau i fyw gyda'u teuluoedd eu hunain unai drwy Orchymyn Gofal a threfniant Lleoliad gyda Rhieni, neu wedi eu lleoli gyda aelodau estynedig o'u teulu sydd wedi cael eu cofrestru fel rhieni maeth.

2.4 Mae cynnydd sylweddol wedi bod dros y 5 mlynedd diwethaf yn yr achosion gofal sydd yn aros adref gyda'u rhieni (gw.atodiad 1). Mae'r achosion hyn yn achosion o risg uchel gan fod niwed arwyddocaol wedi ei brofi, ond fod cydnabyddiaeth fod modd cydweithio yn agos gyda'r rhieni i newid ymddygiad i ofalu yn briodol am eu plant. Mae yn golygu nad yw plant yn cael eu symud o'u cartrefi, ond fod angen mesurau diogelu ychwanegol i sicrhau fod y lleoliad yn eu cartref yn un diogel. Maent yn destun yr un trefniadau adolygu, ymweld a chefnogaeth ag unrhyw blentyn arall mewn gofal sydd yn byw gyda rhieni maeth neu mewn gofal preswyl.

2.5 Ein hadnodd mwyaf gwerthfawr yw'r gofalwyr maeth sydd wedi eu cofrestru ar gyfer maethu yn gyffredinol. Hebddynt ni fyddem mewn sefyllfa i gynnig sefydlogrwydd na chartrefi diogel i dros 100 o blant Gwynedd. Maent yn deuluoedd arbennig iawn ac yn agor eu drysau a'u bywydau i blant sydd wedi dioddef trawma, ac yn gweithio gyda ni fel gwasanaeth i adnabod eu anghenion i sicrhau eu bod yn cael mynediad i'r gwasanaethau y maent eu hangen i ddatblygu. Maent yn chwarae rhan allweddol bwysig ym mywydau y plant hyn, boed yn leoliad tymor hir drwy eu plentyndod, yn leoliad tymor byr, yn ofal ysbaid, neu yn leoliad sydd yn paratoi plant tuag at symud i leoliadau parhaol er enghraifft mabwysiadu.

2.6 O fewn ein hadnoddau maethu ein hunain- a adnabyddir fel maethu cyffredinol, mae 72 o leoliadau wedi eu cofrestru sydd gyda'r capasiti i gynnig lleoliadau i 139 o blant. Mae 60 o leoliadau maeth eraill sydd yn gofalu am 96 o blant yn leoliadau teulu estynedig, boe yn nain a thaid, ewythr a modryb neu frawd neu chwaer hŷn. Rhwng Ebrill a Hydref 2020 cofrestrwyd 9 o leoliadau teulu ychwanegol ar gyfer 15 o blant, a 4 lleoliad maethu cyffredinol sydd ar hyn o bryd yn cynnig gofal i 7 o blant. Yr ydym yn rheolaidd yn edrych am ffyrdd dychmygus a newydd o recriwtio gofalwyr maeth ac yn rhan lawn o waith sydd yn digwydd yn genedlaethol o dan y Fframwaith Maethu Cenedlaethol.

2.7 Yn gyffredol mae 21 o blant a phobl ifanc mewn gofal preswyl oherwydd anghenion cymhleth a dyws na ellid fod wedi eu diwallu o fewn lleoliad maeth. Mae'r anghenion yma yn cynnwys materion megis ymddygiad rhywiol anaddas; hunan anafu ac ymddygiad perygl; ecsploetio rhywiol, anableded dwys ac ymddygiadau tu hwnt i reolaeth rhieni sydd yn peryglu lles y person ifanc. Mae canfod lleoliad addas ar gyfer y garfan yma o blant yn hynod o heriol. Maent wedi eu lleoli mewn unedau tu allan i Wynedd, a rhai tu allan i Gymru oherwydd fod ganddynt anghenion penodol iawn.

2.8 Ar adegau mae'r gallu i ganfod lleoliad preswyl addas yn amhosibl, ac mae rhaid i'r gwasanaeth wneud penderfyniad i sefydlu cynllun i ofalu am y plentyn ein hunain, wedi eu staffio 24 awr gan ein

gweithwyr ein hunain. Mae hyn yn sylfaenol anghyfreithlon ac yn cael ei ystyried fel lleoliad heb ei reoleiddio. O ganlyniad mae rheidrwydd arnom i hysbysu yr Arolygiaeth Gofal Cymdeithasol o'r lleoliad ac mae gofyn i adrodd yn wythnosol ar gynnydd yn dod o hyd i leoliad arall i'r person ifanc. Mae rhain yn achosion o risg uchel i'n gweithwyr ac i'r Cyngor, ac yn benderfyniadau anodd iawn i'w gwneud oherwydd bregusrwydd y sefyllfa. Mae posibilrwydd o erlyniad troseddol yn bodoli o wneud y lleoliadau yma, ond gwneud hynny yw'r opsiwn olaf ar ôl i bob opsiwn arall fethu. Yn y bôn, mae'r plentyn neu'r person ifanc yn gyfrifoldeb i ni erbyn hynny, ac mae rhaid gofalu amdano ef neu hi waeth beth yw'r oblygiadau proffesiynol i unigolion sydd yn gwneud y penderfyniad. Yn y 5 mlynedd diwethaf rydym wedi gwneud 7 trefniant o'r math yma. Yn ffodus, nid oes yr un o'r rhain yn leoliadau tymor hir, ac rydym wedi medru dod o hyd i leoliad preswyl er mwyn dod a'r lleoliad anrheoledig i ben.

Cynlluniau Lleihau niferoedd plant mewn gofal

3.1 Fel gwasanaeth, ein prif nod yw i gadw teuluoedd gyda'i gilydd, ond mae adegau yn codi lle mae angen dod â plant i ofal. Mae cynnydd cyson mewn niferoedd wedi bod yng Nghymru dros y bynyddoedd diwethaf. Rydym yn ymwybodol iawn o'r cynnydd yma yng Ngwynedd ac mae yn hynod o bwysig ein bod fel gwasanaeth yn gweithredu cynlluniau i leihau y niferoedd o blant sydd yn dod i ofal. Yr ydym fel gwasanaeth yn hollol glir fod y niferoedd plant sydd mewn gofal yng Ngwynedd angen bod mewn gofal oherwydd y ffactorau sydd wedi arwain i'r angen i'r Cyngor ymyrryd i'w diogelu. Yn ogystal, o ganlyniad i arolwg llawn o'r Gwasanaeth Plant yng Ngwynedd a gyhoeddwyd ar ddechrau 2019, roedd dataganiad yr Arolygiaeth Gofal Cymdeithasol yn nodi fod y gwasanaeth yn mynd y filltir ychwanegol i sicrhau diogelwch plant a phobl ifanc, a'n bod ni yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau fod plant yn medru aros gyda'i teuluoedd. Cyhoeddodd yr Arolygiaeth adroddiad trosolwg cenedlaethol yn 2019 oedd yn nodi na fu iddynt ganfod fod plant mewn gofal yng Nghymru na ddylent fod mewn gofal, ac nad oedd tystiolaeth i ddangos fod plant yn y system na ddylent fod yno.

3.2 Mae'r uchod wrth gwrs yn rhoi sicrwydd i awdurdodau lleol fod y penderfyniadau iawn yn cael eu gwneud i ddiogelu plant, ond ar yr un pryd yn gwerthfawrogi yn llawn fod y niferoedd plant mewn gofal yn anghynladwy yn y tymor hir, ac y dylid sicrhau fod adnoddau a gwasanaethau ar gael i gefnogi teuluoedd i ofalu am eu plant eu hunain yn ddiogel.

3.3 Cyhoeddodd Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru ar ddechrau 2019, fod lleihau niferoedd plant mewn gofal o'r blaenoriaethau polisi i'r Llywodraeth, a gosodwyd gofyn ar awdurdodau lleol i osod targed rhifyddol i leihau niferoedd er mwyn medru mesur llwyddiant yn erbyn y targed hwnnw. O ganlyniad, hysbyswyd Llywodraeth Cymru na fyddai Cyngor Gwynedd yn gosod targed rhifyddol na chanranol mewn perthynas a lleihau niferoedd plant mewn gofal. Yr egwyddor sydd yn sail i hyn yw ymrwymiad yr awdurdod i sicrhau fod plant yn cael eu diogelu. Y disgwyliad corfforaethol a gwleidyddol o'r Gwasanaeth Plant yw ein bod yn parhau i wneud y penderfyniadau cywir ar gyfer plant yn seiliedig ar angen a risg. Yn unol â'r weledigaeth, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i osgoi gosod targedau gan ein bod yn gwybod o brofiad nad ydynt yn ffordd effeithiol o weithio. Ein pwrpas yw i sicrhau fod pethau yn gwella drwy ymarfer priodol ac addas, ac nid drwy gydymffurfio drwy gyrraedd targed. Golyga hyn ein bod yn canolbwyntio ar wella ymarfer, deall y gofyn ar ein gwasanaeth, ar welliant parhaus a symud rhwstrau er mwyn cyflawni'r gorau i blant. Dyma yw'r safbwynt cyfredol yng Ngwynedd mewn perthynas a'r gofyn i osod targed i leihau niferoedd plant mewn gofal.

Sefyllfa COVID-19

4.1 Daeth COVID-19 â heriau newydd i'r gwasanaeth plant. Nid oedd peidio gweithredu yn opsiwn, ond bu rhaid gwneud penderfyniadau yn sydyn iawn i gytuno ar y ffordd newydd o weithredu ac ymarfer i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol. Bu i'r gweithlu yn ei gyfanrwydd dderbyn yr her yn llawn ac ni fu amhariad ar argaeledd ein gweithlu o gwbl yn ystod y cyfnod.

4.2 Bu rhaid gwneud y newidiadau canlynol yn sydyn:

- Symud pawb o'r swyddfeydd i weithio o'u cartrefi
- Sicrhau fod gan pob aelod o staff fynediad at PPE llawn er mwyn parhau i wneud ymweliadau i gartrefi pan fo angen gwneud hynny e.e ymchwiliadau diogelu plant
- Rhoi trefniadau mewn lle i blant mewn gofal gael cyswllt gyda'u rhieni dros y we e.e facebook, what's app, teams ac yn y blaen yn hytrach na chael cyswllt wyneb yn wyneb
- Cau yr uned egwyl fer ar gyfer plant anabl, Hafan y Ser, a rhoi trefniadau i gefnogi rhai teuluoedd yn y gymuned gan gymryd i ystyriaeth gofynion cyfyngiadau'r cyfnod clo
- Sicrhau fod ymweliadau statudol i blant mewn gofal a phlant ar y gofrestr diogelu plant yn cymryd lle unai yn rhithiol neu i'r cartref yn ddibynol ar lefel risg
- Cydweithio gyda'r adran addysg i sicrhau fod plant gyda'r mwyaf o angen yn cael mynediad i'r ysgolion fel plant bregus
- Cynnal adolygiadau plant mewn gofal yn rhithiol
- Sicrhau fod cefnogaeth ymarferol ar gael ar gyfer rhieni maeth yn enwedig lle roedd unigolion yn gorfod hunan ynysu.
- Sefydlu llinell gymorth tu allan i oriau gwaith i ofalwyr maeth
- Rhoi tystiolaeth mewn achosion llys dros blatfform digidol

4.3 Ers diwedd y cyfnod clo cyntaf rydym wedi:

- Parhau i ymweld â chartrefi a gweld plant wyneb yn wyneb i gyflawni cyfrifoldebau statudol ym maes diogelu a plant mewn gofal
- Ail agor uned egwyl fer Hafan y Ser ar gyfer dau o blant/pobl ifanc ar y tro hyd yma.
- Ail gychwyn cyswllt wyneb yn wyneb rhwng plant mewn gofal a'u rhieni o fewn cyfyngiadau COVID-19
- Parhau i sicrhau fod gan ein gweithlu fynediad at PPE llawn

4.4. Yn gyffredinol, yr ydym wedi gweithredu ein cyfrifoldebau yn llawn, ond mewn ffyrdd gwahanol i'r arfer. Does dim amheuaeth fod hyn wedi bod yn bwysau mawr ar y gweithlu a rheolwyr, ac mae peth pryder am effaith y cyfnod a'r pwysau yma ar les emosiynol nifer o'n staff. Rydym yn parhau i weithio o adref yn unol â'r disgwyliad, ond mae hyn yn mynd yn gynnyddol anodd mewn maes sydd yn dibynnu ar gyswllt personol ffurfiol ac anffurfiol gyda cydweithwyr a thimau. Rydym yn gweld effaith hyn ar unigolion erbyn hyn, ac yn rhoi trefniadau mewn lle i leddfu rhai o'r materion, er enghraifft, sicrhau nad oes unrhyw weithiwr yn gorfod rhoi tystiolaeth mewn llys o'i gartref ei hun heb gefnogaeth rheolwr; trefniadau iechyd a diogelwch tynn mewn lle yn enwedig pan mae gweithiwr yn mynd i sefyllfa o risg i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn teimlo yn iawn ar ôl ymweliad anodd, a sicrhau fod cyswllt rheolaidd iawn yn cael ei wneud hefo pob gweithiwr ar lefel rheolwyr a'r Tim Rheoli.

Marian Hughes,

Tachwedd 16eg, 2020.

